**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer yr ymchwiliad: A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee for the inquiry: Do disabled children and young people have equal access to education and childcare?**

**AEC 37**
**Ymateb gan: Chwarae Cymru**
**Response from: Play Wales**

---

1.1 Mae Chwarae Cymru, yr elusen genedlaethol dros chwarae yng Nghymru, yn eiriol dros hawl ac angen pob plentyn i chwarae. Ein meysydd allweddol yw:

- cynyddu ymwybyddiaeth
- hyrwyddo arfer da
- darparu cyngor ac arweiniad ar draws pob sector.

1.2 Mae ein gwaith yn cynnwys:

- Polisi: Gweithio gydag eraill i hysbysu datblygu polisïau a materion eraill sy'n ymwneud â chwarae plant
- Gwasanaeth gwybodaeth: Hyrwyddo gwerth chwarae plant trwy ddarparu gwybodaeth amserol a chyfredol
- Cyngor a chefnogaeth: Darparu gwybodaeth arbenigol ar yr holl faterion sy'n effeithio ar chwarae plant
- Datblygu'r gweithlu: Cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y gweithluoedd gwaith chwarae a chwarae.

1.3 Fe wnaethom weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu ei Bolisi Chwarae[1], Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae ac ar ei ddeddfwriaeth 'Digonolrwydd Chwarae' arloesol. Mae Adran 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010[2] yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn eu hardal.

1.4 Fe wnaethom hefyd ddrafftio'r adroddiad ar gyfer Grŵp Llywio yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (2022) a'r papur cefndir atodol.[3]

1.5 Chwarae yw'r ffordd fwyaf naturiol a phleserus i blant fod yn egnïol, cadw'n iach a bod yn hapus. Mae'n hanfodol i les a datblygiad iach plant fel y mynegir ym Mholisi Chwarae Llywodraeth Cymru.

1.6 Mae Chwarae Cymru'n falch o gael cyfle i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn.

---

[1] https://chwarae.cymru/wp-content/uploads/sites/3/2023/03/Polisi-Chwarae.pdf
[2] https://chwarae.cymru/polisi-chwarae/digonolrwydd-chwarae/
[3] https://chwarae.cymru/news_category/adolygiad-gweinidogol-o-gyfleoedd-chwarae-adroddiad-wedii-gyhoeddi/

1.7 Mae ein cyfraniad wedi'i hysbysu gan wybodaeth a gasglwyd gan ein rhwydwaith o dimau a sefydliadau gwaith chwarae sy'n gweithio mewn darpariaeth gwaith chwarae cymunedol, wedi'i staffio, ar hyd a lled Cymru.

1.8 Rydym wedi strwythuro ein hymateb yn seiliedig ar y ddogfen ymgynghori a ddarparwyd gan y Pwyllgor, gan gyfeirio at y materion y mae gennym dystiolaeth ar eu cyfer.

**I ba raddau y mae plant a dysgwyr yn gallu cael mynediad at bob rhan o ddarpariaeth gofal plant ac addysg ar hyn o bryd, gan gynnwys y ffordd y caiff y cwricwlwm ei addysgu yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol.**

1.9 Mae nifer o ddarparwyr gwaith chwarae awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, sy'n trosglwyddo rhaglen o ddarpariaeth, hefyd yn cynnig lleoedd â chymorth ar gyfer plant anabl. Mae'r mwyafrif o'r gweithgarwch hwn yn ystod gwyliau haf ysgolion. Mae'r lleoedd hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, megis:

- Maint y cymorth sydd ei angen (mae cymorth 1:1 yn heriol ar gyfer darparwyr)
- Set sgiliau'r staff
- Hygyrchedd adeiladau a lleoliadau.

**I ba raddau y mae plant a phobl ifanc wedi'u heithrio o agweddau penodol ar addysg neu ofal plant oherwydd eu hanabledd neu niwrowahaniaeth.**

1.10 Mae rhieni'n adrodd bod y cyfleoedd a'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer plant anabl yn gyfyngedig ac yn gallu bod yn anodd cael hyd iddo. Mae amrywiol glybiau, lleoliadau gwaith chwarae a darpariaeth gofal plant ar gael ar gyfer plant sy'n niwronodweddiadol. Nid yw hyn yn wir bob amser ar gyfer plant niwrowahanol ac anabl.

**I ba raddau y mae teuluoedd a phlant yn teimlo bod gwahaniaethu uniongyrchol, gwahaniaethu anuniongyrchol neu wahaniaethu yn seiliedig ar anabledd wedi effeithio arnynt.**

1.11 Mae'r diffyg adeiladau a lleoliadau chwarae hygyrch, penodol yn ystod gwyliau'r ysgol yn golygu y gall plant anabl deimlo fel eu bod wedi'u hynysu ac yn aml na ddarperir lle hwyliog a heriol iddyn nhw chwarae gyda'u cyfoedion. Pan mae'r cyfleoedd hyn ar gael, maent yn aml yn gyfyngedig o ran eu hyd a'r nifer o sesiynau a gynigir.

1.12 Trwy Arolwg Omnibws Plant Cymru (2022), gofynnodd Chwarae Cymru nifer o gwestiynau am eu profiadau o amser chwarae yn yr ysgol i 379 o blant mewn addysg amser llawn. Mae 82% o blant yn hoffi amser chwarae gan ei fod yn eu galluogi i fod gyda'u ffrindiau. Fodd bynnag, mae'r data'n destun pryder, gan fod 61% o blant yn adrodd iddynt golli amser chwarae. Y rhesymau mwyaf cyffredin yw i ddal i fyny gyda gwaith neu oherwydd bod athro / athrawes yn teimlo eu bod wedi camymddwyn.

1.13 Mae Chwarae Cymru wedi derbyn ymholiadau oddi wrth rieni pryderus sydd fel pe baent yn awgrymu bod yr arfer hwn yn ymwneud yn aml â phlant anabl a niwrowahanol.

1.14 Gall gwrthod caniatáu amser chwarae fel cosb am ymddygiad a'i gynnwys mewn polisïau rheoli ymddygiad achosi stigma ac mae'n mynd yn groes i hawl plant i chwarae. Gall hefyd fod yn wrthgynhyrchiol, gan ei fod yn aml yn effeithio fwyaf ar blant sy'n ei chael yn anodd canolbwyntio yn y dosbarth ac sydd angen mynd allan a symud.

1.15 Mae *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol* Llywodraeth Cymru yn egluro'n gwbl groyw – ni ddylid gwrthod amser chwarae i blant yn yr ysgol fel cosb.

1.16 Fe wnaeth Grŵp Llywio yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, Llywodraeth Cymru ystyried addysg ac ysgolion fel thema allweddol. Mae un o argymhellion allweddol adroddiad y Grŵp Llywio yn galw am gynnydd a gwelliant mewn egwyliau ac amser chwarae mewn ysgolion.

**Effaith unrhyw ddiffyg mynediad neu fynediad cyfyngedig ar iechyd meddwl a llesiant plentyn neu berson ifanc, yn ogystal ag ar ganlyniadau addysgol. | A oes gan blant anabl a niwrowahanol, a rhieni'r plant hyn, yr un lefel o ddewis â phlant a rhieni eraill, a pha faterion sy'n effeithio ar y dewis sydd ar gael o ran ysgolion neu ofal plant.**

1.17 Mae gwyliau'r ysgol yn anodd i bob rhiant. Mae'n ymddangos nad oes gan blant anabl a niwrowahanol yr un dewisiadau â phlant niwronodweddiadol. O ganlyniad, bydd y gwyliau'n anodd iddynt oherwydd y diffyg cyfleoedd i chwarae a chymdeithasu gyda ffrindiau a chyfoedion. Mae hyn yn niweidiol i'w datblygiad a'r cynnydd a wnaethpwyd yn ystod y tymor a gall atal eu datblygiad cymdeithasol. Yn ogystal â'r effaith ar ddeilliannau tymor hirach, mae Chwarae Cymru'n pryderu am yr effaith gaiff y cyfleoedd cyfyngedig hyn ar les uniongyrchol plant. Rydym am i bob plentyn gael plentyndod iach a hapus trwy chwarae.

**Y rhwystrau sy'n atal ysgolion a darparwyr gofal plant rhag cynnig darpariaeth hygyrch.**

1.18 Mae rhai o'r prif resymau ddaeth i'n sylw'n cynnwys:

- Diffyg ariannu rheolaidd a digonol
- Diffyg cadw staff oherwydd tâl isel a diffyg y nifer rheolaidd o oriau gwaith sydd ar gael
- Cynnydd yn y nifer o blant anabl
- Cynnydd yn y nifer o rieni sy'n chwilio am ddarpariaeth arbenigol benodol

- Gorbryder cynyddol ymhlith rhieni plant anabl sy’n arwain at bryderu am blant yn cael eu cynnwys mewn darpariaeth yn y gymuned
- Diffyg adeiladau all ddarparu ar gyfer anghenion cynyddol plant, fel parcio, lleoliad a hygyrchedd
- Mae llawer o ysgolion arbennig sydd wedi eu hofferu’n dda i ddarparu darpariaeth arbenigol pan mae ei angen; fodd bynnag, gwneir gwaith adeiladu’n aml yn ystod gwyliau’r ysgol, sy’n golygu nad oes modd rhedeg darpariaeth arbenigol. Y staff fydd yn gweithio’n bennaf yn y clybiau hyn yn ystod y flwyddyn ysgol yw’r Cynorthwywyr Addysgu a’r Cynorthwywyr Cymorth Dysgu sy’n gweithio trwy gydol y flwyddyn yn yr ysgol. Yn aml iawn fyddan nhw ddim am weithio’n ystod y gwyliau.

**I ba raddau yr ymgynghorir â phlant anabl a phlant niwrowahanol a'u teuluoedd am y dewisiadau addysg neu ofal plant sydd ar gael iddynt, ac i ba raddau y maent yn cael eu hysbysu ynghylch y dewisiadau hynny.**

1.19 Mae Chwarae Cymru wedi cynnal dadansoddiad o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae (ADCh) awdurdodau lleol a’r Cynlluniau Gweithredu Chwarae a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2022.

1.20 Daeth dadansoddiad yr adolygiad i’r casgliad ei bod yn ymddangos bod ymrwymiad parhaus i sicrhau y glynir at yr egwyddorion sylfaenol o ymgynghori, cyfranogi ac ymgysylltiad.

1.21 Mae grwpiau ffocws gyda phlant anabl a rhieni plant anabl yn cael eu cynnwys fel gweithgarwch ar draws pob Asesiad Digonolrwydd Chwarae a / neu Gynlluniau Gweithredu Chwarae.

1.21 Dynododd yr adolygiad ymrwymiad gan awdurdodau lleol i gynnal ymgynghoriadau dyfnach gyda phlant a chymunedau. Mae hyn ar ffurf ymchwil weithredu ar lefel cymdogaeth neu gyda grwpiau ffocws penodol o blant. Mae’r ymrwymiad yma’n fwy cyffredin ble ceir capasiti datblygu chwarae un ai mewn awdurdod lleol neu sefydliad partner.

**A yw rhieni plant anabl a phlant niwrowahanol, a'r plant eu hunain, yn cael gwybodaeth a chymorth effeithiol gan awdurdodau lleol ac ysgolion.**

1.23 Mae rhieni’n adrodd nad ydyn nhw’n ymwybodol bob amser ble y gallant gael hyd i gymorth, cefnogaeth, a darpariaeth ar gyfer eu plant. Nid yw’r ddarpariaeth gyfyngedig sydd ar gael yn cael ei hysbysebu’n eang a chaiff ei rhannu’n bennaf gyda gweithwyr cymdeithasol Iechyd ac Anabledd Plant (CHAD) sy’n dynodi’r angen mwyaf. Mae’r lleoedd hyn yn aml yn gyfyngedig oherwydd y diffyg staffio yn y sector.

**Casgliad**

Mae ateb anghenion chwarae pob plentyn trwy ddarparu cyfleoedd hygyrch a chynhwysol i chwarae'n parhau i fod yn flaenoriaeth i awdurdodau lleol a'u partneriaid yng Nghymru. Ar y cyfan, mae'n ymddangos bod mwy o ystyriaeth i egwyddorion cyffredinol cynwysoldeb.

Er nad yw'n rhan o gwmpas yr ymchwiliad hwn, fe wnaeth ein hadolygiad o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae ystyried hefyd gyfleoedd i chwarae ar gyfer plant anabl yng nghyd-destun mynediad i fannau chwarae awyr agored, fel ardaloedd chwarae a meysydd chwarae.

Byddem yn hapus i rannu'r wybodaeth yma pe bae'r Pwyllgor yn teimlo ei bod yn ddefnyddiol.